



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau i Geidwaid Moch 2021



Mae'r canllaw hwn yn esbonio'r rheolau yng Nghymru ar gyfer tagio a chofnodi symudiadau moch. At ddiben y canllaw hwn, mae mochyn yn golygu pob anifail o deulu'r mochyn.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

Gwefan: **llyw.cymru/adnabod-symud-moch-canllawiau**

E-bost: **AdnabodDaByw@llyw.cymru**

Canolfan Cyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru:
0300 062 5004 neu e-bostiwrch: **RPWOnline@llyw.cymru**

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

APHA – Gwasanaethau Maes Cymru

Swyddfeydd Penrallt

Caernarfon

Gwynedd

LL55 1BN

Ffôn: 0300 303 8268

E-bost: **apha.cymruwales@apha.gov.uk**

Gwasamaeth Biwro eAML2

AHDB

Stoneleigh Park

Kenilworth

Warwickshire

CV8 2TL

Ffôn: 0844 335 8400

E-bost: **eaml2@ahdb.org.uk**

Cyswllt: **Ffurflen Gyswllt eAML2**

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Adran Un: Cofrestru	1
Cofrestru'ch daliad	1
System eAML2	1
Cofrestru'ch moch	1
Adran Dau: Marcior Moch i'w Hadnabod	2
Marciau adnabod ar foch hyd at 1 oed	2
Marciau adnabod ar foch dros 1 oed	2
Tag Clust	2
Tatw	2
Slapfarc	2
Marc Dros Dro	3
Adran Tri: Rhoi Gwybod eich bod yn symud moch	3
Trwydded Symud Moch	3
Crynodeb y Cludwr	3
Rhoi Gwybod am Symudiad	3
Dim Cyfrifiadur na Chysylltiad â'r Rhynggrwyd?	4
Cofrestr Daliad	4
Y Gwaharddiad Symud 20 Diwrnod	5
Trwyddedau i fynd â mochyn anwes am dro	5
Mewnforio	5
Allforio	5
Adran Pedwar: Enghreifftiau o symudiadau	6
Enghreifftiau o symudiad o fferm i fferm	6
Enghreifftiau o symud moch o fferm i sioe	7
Enghreifftiau o symud moch o fferm i sioe a'u gwerthu yno	8
Enghreifftiau o symudiad fferm i farchnad neu ladd-dy	8
Enghreifftiau o symud moch o farchnad i fferm	10
Enghreifftiau o symud moch i'w hallforio a'u mewnforio	10
Atodiad 1 – Cysylltiadau a gwefannau	11
Atodiad 2 – Termau a diffiniadau a ddefnyddir yn aml	12

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn wedi'i greu ar gyfer pawb sy'n cadw moch yng Nghymru, waeth a ydych yn cadw un fel anifail anwes neu'n cadw cenfaint fasnachol fawr, i esbonio'r rheolau ar symud ac adnabod moch.

Mae'r gyfraith yn gofyn eich bod wedi'ch cofrestru fel ceidwad moch gyda'r Taliadau Gwledig Cymru a Phlanhigion (APHA) (gweler yr adran ar Gofrestru'ch Moch isod). Mae'n hanfodol bod yr awdurdodau'n gwybod yn union ble mae pob anifail fferm er mwyn gallu cymryd camau effeithiol i reoli a dileu clefydau heintus pan fydd achos o glefyd yn codi.

Adran Un: Cofrestru

Cofrestru'ch daliad

Mae'n bwysig cofrestru'ch tir cyn cadw unrhyw anifail arno. Bydd angen CPH (Rhif y Daliad) arnoch sy'n dangos y tir lle bydd y moch yn cael eu cadw. Rhif 9 digid yw CPH. Mae'r ddau ddigid cyntaf yn dangos y sir lle mae'ch moch yn cael eu cadw, mae'r tri digid nesaf yn dangos y plwyf, ac mae'r pedwar digid olaf yn nodi rhif unigryw'r daliad. Er enghraifft, 12 / 345 / 6789.

I gael rhif CPH bydd angen i chi yn gyntaf gael Cyfeirnod Cwsmer (CRN) gan Taliadau Gwledig Cymru (RPW) drwy gysylltu â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid. Yna gallwch wneud cais am eich CPH ar 'Rheoli Fy CPH' ar eich cyfrif RPW ar-lein a byddwch yn cael gwybod am eich rhif CPH newydd drwy'ch cyfrif.

Os ydych eisoes yn gwsmer, defnyddiwch y gwasanaeth Rheoli Fy CPH ar RPW ar-lein. Pan fyddwch yn cymryd tir neu'n rhoi'r gorau i dir lle rydych yn cadw moch, rhaid i chi ddiweddarau manylion y tir ar Rheoli Fy CPH. Os oes gennych unrhyw broblemau, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

System eAML2

System ar-lein yw eAML2 y mae angen rhoi gwybod iddi am bob symudiad moch yng Nghymru.

I gofrestru ar gyfer cyfrif y system, ewch i eAML2 a chliciwch ar Cofrestru gan lenwi'r dudalen Cofrestru Cynhyrchydd. Yna bydd enw defnyddiwr a chyfrinair yn cael eu e-bostio atoch chi a dyna chi'n barod i ddechrau arni! Gallwch nawr gofnodi symudiadau ar-lein ac argraffu crynodebau'r cludwr (neu 'dogfen symud' fel y'i gelwir hefyd).

Egwyddor y system eAML2 yw'ch bod yn rhoi gwybod am symudiadau cyn eu bod yn digwydd.

Gall ceidwad drefnu symudiad hyd at flwyddyn ymlaen llaw, gan gadarnhau wedyn faint yn union o foch fydd wedi gadael y daliad pan fydd y symudiad wedi digwydd. Mae cadarnhau faint o foch sydd wedi gadael yn rhan bwysig o'r system i sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei chofnodi. Mae'r cadarnhad hefyd yn gweithredu fel llofnod electronig. Gallwch gofnodi symudiadau i ac o'ch daliad hefyd drwy neges destun ond bydd angen cofrestru'ch rhif ffôn drwy adran 'Pig Hub' gwefan eAML2, neu fel arall ni fydd modd anfon neges atoch.

Mae Gwasanaeth Biwro eAML2 yn cefnogi'r system eAML2 ac yn cael ei redeg gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB). I gael rhagor o help, cysylltwch gan ddefnyddio'r manylion isod:

- Llinell Gymorth eAML2: 0844 335 8400, (Dydd Llun i ddydd Gwener 9.00am – 5.00pm, 5c yr alwad/munud ynghyd â thâl darparwr eich ffôn)
- ebost: eaml2@ahdb.org.uk
- post i AHDB Bureau Service, Stoneleigh Park, Kenilworth, Warwickshire CV8 2TL.

Mae canllaw cychwyn cyflym ar gyfer cynhyrchwyr/lladd-dai/marchnadoedd a chanolfannau casglu ar gael yn yr adran Cymorth i Ddefnyddwyr.

Cofrestru'ch moch

Pan fydd y moch yn cyrraedd eich daliad am y tro cyntaf, bydd angen i chi gofrestru'r genfaint gyfan gydag APHA o fewn mis wedi iddynt gyrraedd. I gysylltu â swyddfa Ranbarthol leol APHA ffoniwch 0300 303 8268 neu e-bostiwch apha.cymruwales@apha.gov.uk. Gofynnir i chi am eich rhif CPH fel cyfeirnod.

Os yw'ch cyfeiriad gohebu yn wahanol i leoliad y genfaint, rhowch wybod i Swyddfa Ranbarthol APHA i gadarnhau bod ganddynt y manylion cywir. Bydd Swyddfa Ranbarthol APHA yn anfon dogfen gofrestru atoch, a fydd yn cynnwys eich manylion personol, CPH a rhif y genfaint. Mae rhif y genfaint yn cynnwys un neu ddwy lythrennau a phedwar digid. Er enghraifft, A1234 neu AB1234. Mae rhif y genfaint yn ffordd gyflym ac effeithiol o nodi o ba ddaliad y mae moch wedi symud. Mae'n unigryw, mae'n cael ei gadw mewn un gronfa ddata, ac gall arolygwyr ei ddefnyddio i dracio moch yn gyflym.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw un o'r materion hyn, cysylltwch â Swyddfa Ranbarthol APHA.

Os byddwch yn rhoi'r gorau i gadw moch ar eich daliad, rhaid i chi hysbysu APHA o fewn mis.

Adran Dau: Marcio'r Moch i'w Hadnabod

Rhaid i chi farcio'ch moch a gallwch wneud hynny drwy ddefnyddio tag clust, tatŵ neu slapfarc. Gallwch brynu'r holl offer adnabod oddi wrth eich cyflenwyr amaethyddol lleol.

Marciau adnabod ar foch hyd at 1 oed

Er mwyn cael symud moch hyd at 1 oed, rhaid eu marcio fel a ganlyn:

- marc paent dros dro i symud moch rhwng daliadau.
- tag clust, tatŵ neu slapfarciau dwbl i symud moch i ladd-dy.
- tag clust, tatŵ neu slapfarciau dwbl i symud moch i unrhyw fath o farchnad.
- tag clust, tatŵ neu slapfarciau dwbl - gyda rhif adnabod unigol i symud moch i sioe neu i'w harddangos.

Marciau adnabod ar foch dros 1 oed

Er mwyn cael eu symud rhwng daliadau, i unrhyw fath o farchnad ac i ladd-dy, rhaid rhoi tag clust, tatŵ neu slapfarc dwbl â rhif lechyd Anifeiliaid eich cenfaint arno ar eich moch. Rhaid rhoi rhif y genfaint ar y mochyn cyn iddo adael eich daliad. Os yw ei berchennog blaenorol eisoes wedi'i farcio, rhaid ei farcio o'r newydd gyda rhif eich cenfaint chi.

Rhaid gofalu bod tag ar foch sy'n cael eu symud i sioe neu i'w harddangos, i fridio neu i ganolfan AI, i'w werthu neu ei allforio.

Tag clust

Rhaid i'r llythrennau 'UK' ac yna rhif eich cenfaint fod wedi'u stampio neu eu hargraffu ar y tag clust. Er enghraifft, UK AB1234. Rhaid i dagiau ar foch sydd i'w lladd fod wedi'u gwneud o fetel neu blastig a rhaid iddynt allu gwrthsefyll gwres yn ddigon da i oroesi'r broses o drin carcassau. Mae tagiau plastig yn addas ar gyfer symud moch o ddaliad i ddaliad.

Tatŵ

Gallwch ddefnyddio tatŵ fel marc adnabod parhaol. Gallwch roi tatŵ o rif y genfaint ar glust y mochyn. Er enghraifft, AB1234. Nid oes angen y llythrennau 'UK'.

Slapfarc

Mae slapfarc yn farc inc parhaol o rif eich cenfaint wedi'i osod ar ddwy ysgwydd flaen y mochyn. Rhaid gallu darllen y marc gydol oes y mochyn a thrwy gydol y broses o drin ei garcas. Yn yr achos hwn, mae defnyddio'r llythrennau 'UK' yn wirfoddol. Caniateir defnyddio offer aer cywasgedig i roi slapfarc.

Marc dros dro (ar gyfer moch o dan 1 oed)

Rhaid i farc dros dro ar fochyn hyd at 1 oed bara nes bod y mochyn yn cyrraedd pen ei daith. Gall y marc fod yn llinell goch, yn groes ddu neu'n gylch glas, er enghraifft, wedi'u paentio.

O gyfuno'r marc dros dro â chrynodeb y cludwr, bydd modd adnabod y daliad y daeth y porchell ohono.

Adran Tri: Rhoi Gwybod eich bod yn Symud Mochyn

Trwydded Symud Moch

Fersiwn electronig o'r drwydded symud moch (AML2) yw'r eAML2. Mae'n cyfuno ffurflenni papur AML2 a gwybodaeth am y gadwyn fwyd (FCI) sy'n ofynnol wrth symud moch i'w lladd. Mae'r amodau ar gyfer symud moch wedi'u nodi yn y Drwydded Gyffredinol, y ceir copi ohoni ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'n ofyn cyfreithiol i wneud cofnod electronig bob tro y symudir moch cyn i'r anifeiliaid adael eich daliad. Gallwch wneud hyn ar-lein ar system eAML2 neu os nad oes gennych gyfrifiadur neu gyswllt â'r rhyngwyd, gallwch roi gwybod am y symudiad naill ai trwy ffonio Gwasanaeth Biwro eAML2 ar 0844 335 8400 neu ddefnyddio'r gwasanaeth negeseuon testun. Mae opsiwn hefyd i ofyn i asiant gofnodi'r symudiadau ar eich rhan. Cysylltwch â llinell gymorth eAML2 i gael rhagor o wybodaeth.

Mae'n ofyn cyfreithiol i roi gwybod bob tro y byddwch yn symud mochyn oddi ar ddaliad cyn i'r symud ddigwydd.

Crynodeb y Cludwr

Mae hon yn ddogfen symud y mae'n rhaid i bawb sy'n cludo moch, yn ôl y gyfraith, ei chadw gyda nhw wrth gludo moch. Gall y ddogfen fod ar ffurf electronig neu bapur, gan ddbynnu ar y dull a ddefnyddir i gofnodi'r symudiad. Mae'r ddogfen yn sicrhau os bydd arolygydd neu awdurdod arall yn stopio'r person sy'n cludo'r moch yn ystod y daith, y bydd yn gallu dweud o ble mae'r moch wedi dod ac i ble maen nhw'n mynd.

Ewch i eAML2 www.eaml2.org.uk/ami/helpline.eb i gael dogfennau eAML2.

Rhoi Gwybod am Symudiad

Drwy roi gwybod ymlaen llaw am y symudiad, gallwch gadw crynodeb y cludwr ar ddyfais electronig a'i gadw gyda chi neu ei anfon ymlaen at y cludwr. Os na fydd pen y daith yn gallu delio â gwybodaeth electronig, rhaid argraffu copi o Grynoded y Cludwr a'i gadw gyda'r moch ar eu taith. Os ydych yn defnyddio'r gwasanaeth biwro, bydd angen i chi roi amser i grynoded y cludwr/dogfen symud gyrraedd drwy'r post neu gellir ei e-bostio atoch yn lle hynny. Ni all y symudiad ddigwydd hyd nes bod y ddogfen hon yn eich cyrraedd, felly cofiwch gynllunio symudiadau eich moch ymlaen llaw.

Ar ôl i'r moch gael eu llwytho, rhaid i chi gadarnhau'r manylion drwy eich cyfrif ar-lein neu drwy neges destun a hynny ar y dyddiad gadael. Os ydych yn defnyddio cludwr, rhaid iddynt gadw copi o'r ddogfen electronig neu bapur y byddwch yn ei rhoi iddynt wrth lwytho.

Rhaid cadarnhau symudiadau'n electronig, a gellir gwneud hynny ar-lein, drwy linell gymorth eAML2 neu ar y gwasanaeth negeseuon testun. Bydd y lladd-dy/fferm/marchnad sy'n derbyn yr anifeiliaid yn cadarnhau ar-lein neu drwy neges destun neu drwy ffonio gwasanaeth biwro eAML2 bod yr anifeiliaid/niferoedd wedi cyrraedd. Caiff manylion symudiadau sydd wedi'u gwneud eu lanlwytho (bob os) o'r system eAML2 i gronfa ddata AMLS y Llywodraeth, gan ddarparu data effeithlon a chywir ar symudiadau anifeiliaid.

Mae'n ofyn cyfreithiol i gadarnhau bod moch wedi cyrraedd daliad o fewn 3 diwrnod wedi iddynt gyrraedd.

Gall marchnadoedd, lladd-dai, canolfannau crynhoi a chasglu gysylltu â'r eAML2 yn uniongyrchol neu drwy feddalwedd y farchnad/lladd-dy. Pan fydd moch yn mynd drwy farchnad, bydd y farchnad yn anfon y data symud yn electronig i eAML2 ac yn creu crynodeb cludwr i fynd gyda'r moch i ben y daith.

Nid oes angen rhoi gwybod ymlaen llaw am foch sy'n gorfod cael eu symud 'ar y diwrnod' i farchnad neu ganolfan gasglu. Gallwch lenwi copi papur ysgrifenedig o Grynoded y Cludwr (mae copïau ar gael ym Miwro eAML2). Er mwyn cael eu symud i'r farchnad fel hyn, rhaid i'r farchnad/canolfan gasglu anfon y manylion yn electronig at eAML bod y moch wedi'u symud o'r fferm a chadarnhau eu bod wedi cyrraedd y farchnad – ar y diwrnod y bydd y moch yn cyrraedd. Rhaid i geidwaid sicrhau bod y farchnad yn gallu gwneud hyn cyn symud yr anifeiliaid, a rhaid iddynt dderbyn a chadw cadarnhad (crynodeb cludwr/dogfen symud) gan y farchnad ei bod wedi gwneud.

Fel rhan o'i phroses werthu, bydd y farchnad yn cofnodi'r symudiad i CPH y prynwr a bydd y ceidwad newydd yn derbyn copi ar gyfer y daith adref. Os ydy'r moch yn cael eu gwerthu ar benwythnos ac na all y farchnad ddod o hyd i gyfrif y ceidwad, bydd yn rhoi dogfen wedi'i phrintio i'r ceidwad heb rif cyfeirnod arni a dylai'r ceidwad newydd ffonio tîm y ganolfan ddydd Llun i gadarnhau'r symudiad. Caiff yr holl gofnodion eu storio'n electronig ar y system eAML2 am 3 blynedd a byddant ar gael i'w harchwilio gan yr awdurdodau perthnasol. Ar gyfer ceidwaid nad ydyn nhw'n gallu cysylltu â'r gwasanaeth eAML2 yn electronig, mae angen cadw dogfennau symud am 6 mis. Rhaid i'r cludwr gadw ei gofnodion am 6 mis.

Nid oes angen rhoi gwybod am symudiadau i gael triniaeth filfeddygol frys.

Mae trwyddedau symud papur ar gael gan fiwro eAML2 ac ar-lein.

Dim Cyfrifiadur na Chysylltiad â'r Rhyngrwyd?

Gall ceidwaid nad oes ganddynt gyfrifiadur na chysylltiad â'r rhyngrwyd ffonio Gwasanaeth Biwro eAML2 ar 0844 335 8400 i gofnodi NEU gadarnhau symudiadau moch. Gellir ebostio trwyddedau symud i'r ceidwad eu hargraffu, neu dros ffacs neu drwy'r post (ar yr amod y rhoddir digon o rybudd). Gall symudiadau gael eu cofnodi hefyd gan asiant, cyn belled â bod y ceidwad wedi trefnu asiant cyn i'r symudiad ddigwydd.

Cofrestr Daliad

Yn unol â Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011, rhaid i chi gadw cofnod o bob mochyn sy'n symud i'ch daliad ac o'ch daliad. **Fodd bynnag, os oes gennych gyfrif eAML2, nid oes raid i chi gadw cofrestr daliad ar wahân gan fod yr holl fanylion hyn wedi'u cofnodi ar system eAML2.**

Mae enghraifft o'r manylion sydd angen eu cofnodi ar gofrestr daliad i'w gweld isod:

Dyddiad y symudiad	Rhif adnabod *	Nifer y moch	Daliad y daethant ohono	Y daliad eu symud iddo	Cyfeirnod Symud
01/01/2020	Tag clust gyda "UK" a rhif cenfaint y daliad y symudir y mochyn ohono; neu datw sy'n dangos rhif y genfaint	3	Daliad presennol Cyfeiriad llawn Rhif CPH	Daliad newydd Cyfeiriad llawn Rhif y Daliad	AB1234

* Wrth symud moch i sioeau, canolfannau AI neu i'w hallforio, rhaid i'r golofn hon gynnwys rhif adnabod unigryw pob mochyn unigol.

- Mae angen i chi gofnodi holl symudiadau'r moch, i neu o'r daliad, yng nghofrestr y daliad o fewn 36 awr i'r symudiad.
- Rhaid i chi gadw'r cofnod hwn am 3 blynedd ar ôl i chi roi'r gorau i gadw moch.
- Rhaid i'ch cofnodion fod ar gael i'w harchwilio gan yr arolygiaeth swyddogol berthnasol.
- Gallant ymweld â'r fferm neu ofyn i chi anfon eich cofnodion atynt i'w harchwilio.
- Gallwch gadw'r cofnod hwn ar ffurf copi caled neu electronig. Os ydych yn cadw eich cofnodion ar ffurf electronig, rhaid i chi allu darparu copi caled o'ch cofnod ar gais.

Y Gwaharddiad Symud 20 Diwrnod

Pan fydd y moch yn cyrraedd eich daliad, bydd gwaharddiad ar symud anifeiliaid fferm o'r daliad. Ni chewch symud unrhyw anifeiliaid fferm eraill oddi ar y daliad am gyfnodau penodol, ac eithrio i'w symud yn syth i'w lladd.

Diben y gwaharddiad yw rhoi cyfle i symptomau unrhyw glefyd ymddangos a chyfyngu ar ledaeniad clefydau. Daw'r rheolau canlynol ar wahardd symud anifeiliaid fferm i rym pan fydd anifeiliaid fferm yn symud i'ch daliad:

- Bydd dod â moch i ddaliad yn golygu gwaharddiad symud o 20 diwrnod ar unrhyw foch eraill ar y daliad hwnnw.
- Bydd dod â moch i ddaliad yn golygu gwaharddiad symud o 6 diwrnod ar wartheg, defaid neu eifr ar y daliad hwnnw.
- Bydd dod â gwartheg, defaid a geifr i ddaliad yn golygu gwaharddiad symud o 6 diwrnod ar foch ar y daliad hwnnw.

I gael rhagor o wybodaeth am symud da byw, gall eich Swyddfa Ranbarthol APHA a Safonau Masnach eich Awdurdod Lleol eich cynghori neu ewch i wefan symud anifeiliaid Llywodraeth Cymru.

Trwyddedau i fynd â mochyn anwes am dro

Mae moch sy'n cael eu cadw fel anifeiliaid anwes neu fel hobi (gan gynnwys moch 'micro') yn gorfod cydymffurfio â'r un rheolau symud ac adnabod â moch sy'n cael eu cadw mewn cenfaint fasnachol.

Fel ceidwad mochyn anwes, ni chewch symud eich mochyn na mynd â nhw am dro heb gael trwydded i wneud hynny gan swyddfa ranbarthol APHA.

Bydd angen i Swyddog Milfeddygol yn y swyddfa APHA gymeradwyo'ch llwybr ymlaen llaw. Os bydd yn credu bod risg yn gysylltiedig â llwybr, ni fydd yn ei gymeradwyo. Mae rhesymau dros beidio â chymeradwyo llwybrau'n cynnwys:

- Yn agos at farchnad da byw, siop bwyd cyflym ac ati.
- Perygl o ddod i gysylltiad â da byw eraill.

Os caiff eich llwybr ei gymeradwyo, byddwch yn cael trwydded sydd angen ei hadnewyddu bob blwyddyn. Rhaid i chi fynd â'r drwydded gyda chi wrth fynd â'r mochyn am dro.

Mewnforio

Rhaid i unrhyw foch sy'n cael eu mewnforio i'r Deyrnas Unedig o'r tu allan i'r UE gael tag clust neu datw o fewn 30 diwrnod ar ôl cyrraedd. Rhaid rhoi'r llythrennau 'UK', rhif genfaint pen y daith a'r llythyren 'F' arno. Nid oes angen hyn ar foch sy'n cael eu symud yn syth i ladd-dy trwyddedig a'u lladd o fewn 30 diwrnod ar ôl cyrraedd.

Allforio



O 1 Ionawr 2021, rhaid rhoi tag clust neu datw clust ar y mochyn, gyda'r codau 'UK' a 'GB' arno a rhif cenfaint y daliad gadael a rhif adnabod unigryw y mochyn. Rhaid rhoi gwybod ymlaen llaw am allforion cyn i'r moch adael y daliad. Rhaid cofnodi manylion adnabod llawn y mochyn sy'n cael ei symud fel rhan o'r adroddiad symud anifeiliaid.

Adran Pedwar: Engreifftiau o symudiadau


Symud o fferm i fferm



System eAML2



Fersiwn Electronig neu Bapur



System eAML2


Argraffwch Grynodedb y Cludwr (os oes ei angen) ar ddiwrnod anfon y moch:

- Bydd y ceidwad sy'n anfon y moch yn cofnodi'r symudiad oddi ar y daliad ar-lein ar eAML2 ymlaen llaw
- Bydd y ceidwad sy'n derbyn y moch yn cadarnhau ei fod wedi'u derbyn ar-lein (o fewn 3 diwrnod, gan nodi unrhyw newidiadau i'r hysbysiad gwreiddiol).

	System eAML2 Ar-lein	Gwasanaeth Biwro eAML2
Y ceidwad sy'n anfon	Cofnodi manylion y symudiad ar eAML2 ar-lein ymlaen llaw. Cadarnhau'r symudiad ar-lein ar y diwrnod gadael.	Rhoi manylion y symudiad i eAML2 ymlaen llaw drwy'r llinell gymorth. Crynodedb y Cludwr wedi'i bostio neu ei e-bostio at y ceidwad. Cadarnhau'r symudiad ar y diwrnod gadael drwy linell gymorth neu wasanaeth testun.
Cludwr	Y ceidwad sy'n anfon yn rhoi fersiwn electronig o Grynodedb y Cludwr i'r cludwr.	Bydd angen copiau o Grynodedb y Cludwr ar y cludwr – un i'w gadw ar gyfer ei ffeiliau ac un i'w roi i'r ceidwad sy'n derbyn (os na fydd cofnod ar-lein).
Y ceidwad sy'n derbyn	Cadarnhau bod y moch wedi cyrraedd ar eAML2 ar-lein o fewn 3 diwrnod (gan nodi unrhyw newidiadau i'r hysbysiad gwreiddiol).	Cadarnhau i eAML2 bod y moch wedi cyrraedd drwy'r linell gymorth neu neges destun o fewn 3 diwrnod. Yn cadw copi o grynodedb y cludwr.



Gwasanaeth Biwro neu Destun eAML2



Fersiwn Electronig neu Bapur



Gwasanaeth Biwro neu destun eAML2

Ar gyfer ceidwaid heb gyfrifiadur neu gysylltiad â'r rhyngwrwyd, gallwch ddefnyddio gwasanaeth biwro neu destun eAML2. Gallwch wneud newidiadau i Grynodedb y Cludwr drwy ffonio llinell gymorth eAML2.

Rhowch fanylion y symudiad ymlaen llaw i Ganolfan eAML2 drwy'r llinell gymorth.

Mae'r ceidwad sy'n anfon y moch yn derbyn 2 Grynoded Cludwr ac yn cadarnhau'r symudiad drwy'r llinell gymorth neu'r gwasanaeth testun.

Mae'r ceidwad sy'n derbyn y moch yn cadarnhau wrth Ganolfan eAML2 ei fod wedi'u derbyn drwy'r llinell gymorth neu'r gwasanaeth testun, o fewn 3 diwrnod, gan nodi unrhyw newidiadau i'r hysbysiad gwreiddiol. Bydd yn cadw copi o Grynoded y Cludwr.

Bydd nifer Crynodebau'r Cludwr yn amrywio yn dibynnu a yw'r ceidwad sy'n anfon neu'r ceidwad sy'n derbyn neu'r ddau yn defnyddio'r gwasanaeth ar-lein neu'r gwasanaeth biwro.

Symudiad o'r fferm i'r sioe



Enghraifft o symud moch o fferm i sioe (anifail yn symud o/i'r un daliad)

Bydd y ceidwad yn cofnodi manylion y symudiad i'r sioe ac yn ôl adre ar eAML2 ar-lein (y daith i'r sioe a'r daith yn ôl), yn cadarnhau ar-lein ac yn argraffu Crynodebau'r Cludwr ar y diwrnod gadael.


Fferm



System eAML2



Sioe



Y sioe i gadw copi o grynoded y cludwr





Bydd angen argraffu Crynodebau'r Cludwr ar gyfer y ddau symudiad wrth eu cofnodi ar-lein.

Bydd swyddogion y sioe yn cadw copïau o Grynodedau'r Cludwr ar gyfer symudiadau i faes eu sioe.

	System EAML2 Ar-lein	Gwasanaeth Biwro eAML2
Ceidwad	Cofnodi manylion y symudiad i'r sioe ac yn ôl adref o'r sioe ar eAML2 ar-lein ymlaen llaw. Cadarnhau'r symudiad o'r daliad ar y diwrnod gadael ar-lein a'r symudiad yn ôl o fewn 3 diwrnod wedi'r digwyddiad.	Rhoi manylion y symudiad i'r sioe ac yn ôl i eAML2 ymlaen llaw drwy'r llinell gymorth. Crynodeb y Cludwr wedi'i bostio neu ei e-bostio at y ceidwad. Cadarnhau'r symudiad o'r daliad ar y diwrnod gadael drwy'r llinell gymorth neu'r gwasanaeth testun a'r symudiad yn ôl o fewn 3 diwrnod wedi'r digwyddiad.
Swyddog y Sioe	Bydd y ceidwad yn printio Crynodeb y Cludwr i'w roi i'r sioe	



Gwasanaeth Biwro neu Destun eAML2



Y sioe i gadw copi o Grynoded y Cludwr

Ar gyfer ceidwaid heb gyfrifiadur na mynediad i'r rhyngwrwyd, gallwch ddefnyddio gwasanaeth biwro a thestun eAML2. Gallwch newid Crynodeb y Cludwr drwy ffonio llinell gymorth eAML2.

Bydd y ceidwad yn rhoi manylion y symudiad i Ganolfan eAML2 ymlaen llaw drwy'r llinell gymorth.

Bydd y ceidwad yn derbyn 2 Grynodedb Cludwr ac yn cadarnhau'r symudiad drwy'r llinell gymorth neu'r gwasanaeth testun.

Bydd swyddogion y sioe yn cadw copiâu o grynodedbau'r cludwyr ar gyfer y symudiad i faes y sioe.

Ar gyfer dychwelyd i/o sioe, bydd angen argraffu crynodedbau cludwyr ar gyfer y ddau symudiad wrth eu cofnodi ar eAML2 ar-lein.

Symudiad o'r fferm i sioe a'i werthu yno

Os caiff mochyn ei werthu neu ei anfon i'w ladd o'r sioe, bydd angen i'r ceidwad lenwi Ffurflen Gwerthu yn y Sioe www.eaml2.org.uk/eblock/services/resources.ashx/000/569/010/Farm_to_show_sale_proforma.pdf (templod ar wefan eAML2).




Bydd angen i'r ceidwad sy'n anfon y mochyn lenwi ffurflen gwerthu yn y sioe gan ddefnyddio'r cyfeirnod symud a neilltuwyd ar gyfer symud y mochyn i'r sioe.

Mae ffurflen gwerthu yn y sioe yn mynd gyda'r moch ar eu taith i ben y daith.

Gall y daliad sy'n derbyn y moch gofrestru'r symudiad o'r sioe naill ai ar eAML2 ar-lein neu drwy linell gymorth eAML2.

Symud o fferm i farchnad/lladd-dy

Enghraifft o symud mochyn o fferm i farchnad




Bydd y ceidwad sy'n anfon yn cofnodi symudiad + newidiadau, ac yn cadarnhau ar-lein.

Bydd y farchnad/lladd-dy yn cadarnhau eu bod wedi derbyn y moch ar eAML2 ar-lein (o fewn 3 diwrnod, gan nodi unrhyw newidiadau i'r hysbysiad gwreiddiol).

	System eAML2 Ar-lein	Gwasanaeth Biwro eAML2
Ceidwad sy'n anfon	Cofnodi manylion y symudiad ar eAML2 ar-lein ymlaen llaw Cadarnhau'r symudiad ar-lein ar y diwrnod gadael.	Rhoi manylion y symudiad i eAML2 ymlaen llaw drwy'r llinell gymorth. Crynodeb y Cludwr wedi'i bostio neu ei e-bostio at y ceidwad. Cadarnhau'r symudiad ar y diwrnod gadael drwy'r llinell gymorth neu neges destun.
Cludwr	Y ceidwad sy'n anfon yn rhoi fersiwn electronig o Grynodedb y Cludwr i'r cludwr.	Bydd angen copïau o Grynodedb y Cludwr ar y cludwr – un i'w gadw ar gyfer ei ffeiliau ac un i'w roi i'r ceidwad sy'n derbyn (os na fydd cofnod ar-lein).
Marchnad/Lladd-dy	Cadarnhau eu bod wedi derbyn y moch ar eAML2 ar-lein o fewn 3 diwrnod (gan nodi unrhyw newidiadau i'r hysbysiad gwreiddiol).	Cadarnhau wrth eAML2 eu bod wedi derbyn y moch drwy'r linell gymorth neu neges testun o fewn 3 diwrnod. Yn cadw copi o grynodedb y cludwr.

Ar gyfer ceidwaid sydd heb gyfrifiadur na chyswllt â'r rhyngrwyd, gallwch ddefnyddio gwasanaeth biwro a negeseuon testun eAML2. Gallwch newid crynodeb y cludwr trwy linell gymorth eAML2.



Bydd y ceidwad sy'n anfon y moch yn rhoi manylion y symudiad i Ganolfan eAML2 ymlaen llaw drwy'r llinell gymorth.

Bydd Crynodebau'r Cludwr yn cael eu postio neu eu e-bostio at y ceidwad sy'n anfon y moch.

Bydd y ceidwad sy'n anfon yn cadarnhau'r symudiad drwy'r llinell gymorth neu'r gwasanaeth testun.

Bydd y farchnad/lladd-dy yn cadarnhau ar-lein eu bod wedi derbyn y moch (o fewn 3 diwrnod, gan nodi unrhyw newidiadau i'r hysbysiad gwreiddiol).

Symud o'r farchnad i'r fferm

Enghreifftiau o symud moch o farchnad i fferm



Bydd y farchnad yn rhoi copi papur o'r ddogfen symud i'r ceidwad sy'n derbyn y moch (crynodedb y cludwr).

Bydd y ceidwad yn cadarnhau ei fod wedi derbyn y moch naill ai ar eAML2 ar-lein neu drwy linell gymorth eAML2 neu wasanaeth testun (o fewn 3 diwrnod, gan nodi unrhyw newidiadau i'r hysbysiad gwreiddiol).


Symudiadau mewnforio ac allforio

Enghreifftiau o symudiad mewnforio



Pan fyddwch yn mewnforio moch byw, y ceidwad sy'n derbyn y moch fydd yn creu cofnod o'r symudiad pan fydd y moch yn cyrraedd ei ddaliad. Gall wneud hyn trwy eAML2 ar-lein (gan ddewis 'report an import') neu drwy linell gymorth eAML2. Bydd y cofnod symud yn cofnodi'r symudiad o'r porthladd i'r daliad sy'n derbyn y moch.

Enghreifftiau o symudiad allforio



Pan fyddwch yn allforio moch byw, y ceidwad sy'n anfon y moch fydd yn creu cofnod o'r symudiad cyn i'r moch adael y daliad. Gall wneud hyn trwy eAML2 ar-lein neu drwy linell gymorth eAML2. Bydd y cofnod symud yn cofnodi'r symudiad o'r daliad sy'n anfon i'r porthladd.

Atodiad 1: Cysylltiadau a dolenni gwefannau

Swyddfeydd Rhanbarthol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

www.gov.uk/government/organisations/animal-and-plant-health-agency/about/access-and-opening

Cymdeithas Foch Prydain

01223 845 100

bpa@britishpigs.org

www.britishpigs.org.uk

Cymdeithas Genedlaethol y Moch (APC)

www.npa-uk.org.uk

Cymdeithas Moch Prydain AHDB Porc

www.pork.ahdb.org.uk

Cymdeithas Milfeddygon Moch

www.pigvetsoc.org.uk

Tudalennau gwe Llywodraeth Cymru ar adnabod a symud moch

AdnabodDaByw@llyw.cymru

www:llyw.cymru/adnabod-symud-moch-canllawiau

Tudalen we allforio Defra

www.gov.uk/guidance/export-livestock-and-poultry

Tudalennau gwe Defra ar wylidwriaeth a rheoli clefydau

www.defra.gov.uk/animal-diseases/controls/

Tudalen we rhestr DEFRA o glefydau hysbysadwy

www.defra.gov.uk/animal-diseases/notifiable/

Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid APHA

www.gov.uk/guidance/animal-by-product-categories-site-approval-hygiene-and-disposal

Gwasanaeth Biwro eAML2

(Llun – Gwener 09:00 i 17:00)

Stoneleigh Park, Kenilworth, Warwickshire, CV8 2TL

0844 335 8400

Eaml2@ahdb.org.uk

www.eaml2.org.uk/ami/home.eb

Cyflenwyr Slapfarciau a Thagiau Clust

www.gov.uk/government/publications/slapmarking-pigs-approved-suppliers-of-equipment

Atodiad 2: Termau a diffiniadau a ddefnyddir yn aml

AHDB	Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth
AML2	Dogfen bapur gyfredol i roi gwybod am symudiad mochyn
APHA	Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
BPA	Cymdeithas Foch Prydain
CPH	Rhif y Daliad
eAMIL2	System Trwyddedu Symudiadau Anifeiliaid Electronig
HAACP	Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol
HS/MD	Crynodeb y Cludwr/Dogfen Symud
IML	Trwydded Symud Unigol
RPW	Taliadau Gwledig Cymru
TSE	Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy